Pennaeth / *Head*
Matthew H. T. Evans

Ffôn/*Tel*: 01639 842129
e-bost/*e-mail*:
ygystalyfera@npted.org

Ysgol Gyfun Ystalyfera
Glanyrafon
Ystalyfera
Abertawe/*Swansea*
SA9 2JJ

Gorffennaf 2017

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ysgrifennaf i nodi rhai digwyddiadau arbennig ar ddiwedd y tymor.

Ffarwelio

Ar ddiwedd tymor, hoffwn nodi fy niolch a dymuno'n dda i aelodau o staff fydd yn gadael ar ddiwedd tymor. Bydd Dr Anita Rees, (Pennaeth Gweithredol / Dirprwy Bennaeth) yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn. Hoffwn ddiolch yn ddidwyll iddi am ei chyfraniad aruthrol i blant, pobl ifanc a chymuned Ysgol Ystalyfera dros gyfnod ardderchog o flynyddoedd. Rydym hefyd yn dymuno'n dda i Mr Danny Williams (Pennaeth Cynorthwyol) sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig yn enwedig ym maes lles plant a datblygu cwricwlwm yr ysgol dros nifer helaeth o flynyddoedd. Yn ogystal bydd Mr Tristian Lewis (Gwyddoniaeth), Mr Elidir Dafydd (Cymraeg) a Mr Andrew Millard (Cerddoriaeth), yn gadael yr ysgol ddiwedd y tymor i ddechrau swyddi neu sialensiau newydd. Hoffwn ddiolch iddynt oll am eu cyfraniad gwerthfawr a dymunwn yn dda i bob un ohonynt am ddyfodol llwyddiannus yn eu gyrfaoedd.

Gwisg ysgol Ysgol Gymraeg Ystalyfera 2017 / 2018

Nid oes newid yng ngwisg ysgol bresennol disgyblion yr ysgol o Fedi 2017, a gallwch ddefnyddio eich gwisg ysgol bresennol. Serch hynny, bydd pob gwisg newydd bellach yn cynnwys logo ac enw newydd yr ysgol, sef *Ysgol Gymraeg Ystalyfera* o amgylch y logo. Hefyd mae gennych yr opsiwn i gael enw eich plentyn wedi ei frodio i frest dde y siwmper (a top Chwaraeon) (enw cyntaf a llythyren gyntaf y cyfenw ee *Dafydd J / Mari H*). Gall yr enw yma gael ei frodio yn lliw llys eich plentyn: Hywel-coch; Llywelyn-glas; Gwenllian-gwyrdd. Ein nod yn syml yw lleihau'r eiddo coll blynyddol a sicrhau ein bod yn adnabod a defnyddio enwau plant a'u hadnabod i gyd fel unigolion. Rydym yn gobeithio y bydd nifer fawr ohonoch yn dewis defnyddio'r opsiwn hwn ac o Fedi 2017 bydd pob disgybl newydd (bl7) yn cael eu henwau ar eu siwmper ysgol.

Adroddiad Blynyddol

Mae copi o'r adroddiad blynyddol nawr ar gael, gallwch gasglu copi o'r Brif Swyddfa neu edrych ar gopi sydd ar ein gwefan. Wrth lunio'r adroddiad mae'n dod yn amlwg unwaith eto gymaint o ddigwyddiadau a llwyddiannau sy'n gallu cael eu gwasgu i ddim ond 12 mis o amser - diolch i bob un sydd wedi gweithio i wneud y flwyddyn mor llwyddiannus i'r ysgol.

Gŵyl Haf 2017

Rwy'n ymwybodol fod gweithgareddau'r Ŵyl Haf wedi bod yn fywiog a byrlymus gyda nifer o weithgareddau amrywiol yn digwydd yn ystod y naw diwrnod o weithgaredd. Byddwn yn casglu barn disgyblion a staff am y cynllun, ac os oes gennych adborth neu farn am y gweithgareddau byddwn yn falch iawn o'u derbyn. Os hoffech ymateb i'r wŷl neu gynnig syniadau ar gyfer y dyfodol a allwch gysylltu â Mrs Laurel Davies, Dirprwy Bennaeth ar ygyyf-l.davies@npted.org, oedd yn cydlynu'r dyddiau.

Noson Wobrwyo

Cynhelir y noson wobrwyo ar nos Iau 13eg o Orffennaf yn Neuadd Fawr yr ysgol am 7pm. Edrychwn ymlaen at gael mwynhau'r noson ac ail fyw llwyddiannau'r flwyddyn.

Digwyddiadau'r tymor

Gorffennaf 12 & 17	Gwaith Maes Daearyddiaeth Bl 10
Gorffennaf 13	Noson Wobrwyo 7pm
Gorffennaf 14	Gig Gymraeg i ddathlu'r Siarter Iaith (gydag ysgolion cynradd)
Gorffennaf 15	Taith Barbados yn ymadael
Gorffennaf 18	Taith Canada yn ymadael
Gorffennaf 20	Taith Bl 7 i Boulogne
Gorffennaf 21	Adroddiadau diwedd blwyddyn (Bl 7, 8 & 10)
Gorffennaf 21	**2.30pm diwedd y flwyddyn ysgol**
Medi 5	**Tymor yr Hydref yn dechrau – Bl 7 & 12 yn unig**
Medi 6	**Dechrau Tymor (pob disgybl)**
Medi 7	Noson Cynghori Bl 13 *(Bl12 presennol)*

Ar ddiwedd blwyddyn arall gyffrous a phrysur dros ben, hoffwn ddiolch ichi i gyd am eich cefnogaeth ddiflino i'r ysgol. Mwynhewch ymlacio dros yr haf ac edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o gydweithio o Fedi 2017!

Cofion,

Matthew H T Evans
Pennaeth

Pennaeth / *Head*
Matthew H. T. Evans

Ffôn/*Tel*: 01639 842129
e-bost/*e-mail*:
ygystalyfera@npted.org

Ysgol Gyfun Ystalyfera
Glanyrafon
Ystalyfera
Abertawe/*Swansea*
SA9 2JJ

July 2017

Dear Parent / Guardian,

I write to inform you of a few events at the end of the school year.

Farewell

At the end of the year, I would like to note our appreciation and best wishes to a number of staff who will be leaving at the end of the term. Dr Anita Rees (Acting Head / Deputy Headteacher) will be retiring from the school at the end of the year. We would sincerely thank her for her contribution to the education of children and young people and for her input to the entire school community over a great number of years. We also wish Mr Danny Williams (Assistant Head) well for the future. Mr Williams has contributed extensively to the life of the school, mainly in improving pupil welfare and in developing the school curriculum, developing learning pathways for young people. In addition, Mr Tristian Lewis (Science), Mr Andrew Millard (Music) and Mr Elidir Dafydd (Welsh), will be leaving their posts at the end of the year to take up new positions or challenges. We sincerely thank them for their work at the school and we would wish them all the best for their continued success in their individual careers.

Ysgol Gymraeg Ystalyfera: Uniform September 2017

There is no change to the current school uniform for our pupils for September 2017, and you can continue to use the current uniform for the foreseeable future. However, when you buy new uniform from our suppliers you will see the new name of the school, *Ysgol Gymraeg Ystalyfera*, is now included on our school logo. In addition you have the option to choose to embroider your child's name on the breast of their jumper (and sport top). The child's name, forename and initial of surname (i.e. Dafydd J / Mari S), can be embroidered in their house colour; Hywel-red; Llywelyn-blue; Gwenllian-green. We hope a number of parents and pupils will choose this option as it will significantly reduce lost property and ensure we get to know each pupil individually and by their forename. All new pupils (Yr7 from Sept 2017) will have this option on their uniform.

Annual report

A copy of the annual report is now available, either from the main school office or through download on our website. In compiling the report it becomes apparent exactly how many different activities and successes can be squeezed into the last twelve months - I would like to note my sincere thanks to all those involved in such varied and exciting activity.

Summer festival 2017

I am very aware that a wide variety of activities were experienced by all pupils during the past nine days of the Summer Festival. We will shortly be asking pupils and staff for their feedback and comments, and if you have any suggestions or comments we would be delighted to receive them. If you would wish to add your comments or feedback for the future, please contact Mrs Laurel Davies, Deputy Head at the school on ygyyf-l.davies@npted.org, who was co-ordinating the events.

Award Celebration Evening

The Award Celebration will be held on the evening of Thursday, 13th of July in the school Main Hall at 7pm. We look forward to celebrate the year's successes with our students and relive the highs and lows of the past year.

End of term events

July 12 & 17	Year 10 Geography Field work
July 13	Award Celebration 7pm
July 14	Welsh Language gig to celebrate Language Charter
July 15	Barbados tour depart
July 18	Canada tour depart
July 20	Year 7 Visit to Boulogne
July 21	End of year full reports (Years 7, 8 & 10)
July 21	**2.30pm end of school year**
September 5	Start of school year, Years 7 & 12 only
September 6	Start of Autumn term (all pupils)
September 7	Year 13 Advice Evening (*current Yr12*)

At the end of another exciting and extremely busy school year, I would like to thank you all for your untiring support for the life of the school. I hope you enjoy a relaxing break over the summer months as we look forward to yet another year of partnership in September.

Yours truly,

Matthew H T Evans
Head